



Fe gaewyd Eglwys y Groes, Taibach, Port Talbot rhai blynyddoedd yn ôl. Bu'n eglwys heb gyfeillion am gyfnod, ond ar ôl siarad am droi'r hen le i mewn i dy annedd, camodd teulu â chysylltiadau â'r achos i mewn a addasu i fod yn Gapel Gorffwys. Cawsom gyfle i gofnodi'r adeilad, tu fewn a tu fas a dysgu rhywbeth am hanes pentre Taibach, sydd wedi cael ei torri'n ddwy gan yr M4 erbyn hyn.

Holy Cross Church, Taibach, Port Talbot was closed several years ago. After a period as a friendless church and talk of conversion into a house, a local family with connections to the church stepped in to adapt the building for use as a Chapel of Rest. We were able to record the inside and outside of the building and learn something about the history of Taibach, a village now divided by the M4.



Dau brosiect arall sy ar y gweill yw asesu safleoedd archaeolegol sydd dan fygythiad ac hefyd diffinio nodweddion y tirwedd hanesyddol yn Ystad Cwm Elan, Powys i Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Mae'r cyfle i adolygu holl gofnodion archaeolegol yr ardal er mwyn rhestru safleoedd dan fygythiad ac sydd angen rheolaeth yn un werthfawr a diddorol iawn.

Two further projects running at present are looking at identifying archaeological sites under threat and also characterising the historic landscape in the Elan Valley estate, for the Elan Valley Trust. The chance to review all the archaeological records for the area to flag up sites which are under threat and may need management is particularly valuable.

Cwm Elan, Powys Elan Valley, Powys



Bedd Gôf Gwaith Mwyn Dyffryn Tywi  
Grave of the Vale of Towy Mine Blacksmith

Rydym ar hyn o bryd yn paratoi 7 panel dehongli treftadaeth a thaflen ar gyfer pentref Llangynnwr, Sir Gaerfyrddin, ar y cyd gyda'r dylunwyr Phil Wait ac Alan Williams. Bydd y paneli yn olrhain hanes yr ardal. Mae hanes y fro yn yn gyfoethog iawn ac yn cynnwys hanes yr eglwys plwyf hynafol, y gerdd enwog "Llangunnor Hill", straeon am y Rhufeiniad, mwynglawdd plwm ac hyd yn oed gwaith daeregwr cynnar a ddaeth yma i astudio trilobites yn gynnar yn y 19eg ganrif.

We are currently working on 7 interpretation panels and a leaflet for the community of Llangunnor, Carmarthenshire, working with the designers Phil Wait and Alan Williams. The panels will trace the history of the area. Local history includes the ancient parish church, the famous poem "Llangunnor Hill", tales of a Roman Road, a local lead mine and even the work of early geologists studying trilobites here in the early 19th century.

Rydym hefyd yng nghanol gweithio gyda Grwp Hanes a Threftadaeth Penparcau, Aberystwyth i chwilio i mewn i hanes Bryngaer Pendinas, sydd yn dominyddu eu chymuned. Gyda sesiynau misol, rydym yn edrych yn drylwyr iawn ar wahanol agweddau o hanes y bryngaer gyda phobol leol.

We are in the middle of a project with the Penparcau History and Heritage Group, studying the history of Pendinas Hillfort, which dominates their community. Our monthly sessions look in detail at different aspects of the hillfort's history with local residents.

Grwp Hanes Penparcau Penparcau History Group



**Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!**

Mae blwyddyn arall wedi pasio ac mae Trysor wedi addasu i'r holl newid sydd wedi dod o fewn y 12 mis diwethaf. Cofiw'n am 2016 am nifer o resymau ar wahân i'r golled o nifer o enwogion a sêr. Ym Mis Gorffennaf, symudodd Paul ac Ann o Sir Benfro i wneud eu cartre newydd yn ardal Castell Nedd. Mae hyn yn golygu bod dau bartner Trysor Bellach yn byw yn yr un sir - Castell Nedd a Phort Talbot! Fe all hyn olygu taw Trysor yw partneriaeth treftadaeth flaenaf (unig) y sir! Pwy sy'n gwybod?



Cnêwr, Powys, Mis Ebrill 2016 Cnêwr, Powys, April 2016

**Merry Christmas and a Happy New Year to all!**

Another year has passed and Trysor has adapted to all the changes which have occurred in the last 12 months. 2016 will be remembered for a number of reasons, apart from the loss of so many celebs. In July Paul and Ann moved from Pembrokeshire to their new home in Neath. This means the both Trysor

partners now live in Neath Port Talbot county. This may make Trysor the county's leading (but only) heritage partnership! We're not actually sure!

Eleni daeth elfennau o'r Bil Treftadaeth newydd i Gymru i rym, ond bydd rhaid aros i weld effaith hynny ar y sector treftadaeth. Ansicrwydd yw prif nodwedd y flwyddyn o bosib, gyda Brexit yn dominyddu'r newyddion a newidiadau polisi'r llywodraeth yn San Steffan yn effeithio maes ynni adnewyddiol ac yn achosi cwmpas yn y nifer o gynlluniau gwynt neu ynni'r haul o gwmpas Cymru. Rhaid gobeithio daw mwy o eglurdeb yn 2017! Beth bynnag a ddaw, dymunwn bob llwyddiant i bob un ohonoch!

This year parts of the new Heritage Bill for Wales came into force, but we will have to wait to see what affect it will have on the sector. Uncertainty characterises the year, perhaps, with Brexit dominating the news and policy changes in Westminster having a considerable impact on the number of wind and solar projects in Wales. We hope for more clarity on matters in 2017! Whatever happens, we wish you all much success!

**Yr olygfa o'r bryniau...**

Er bod gwaith Menter yr Uwchdiroedd wedi dod i ben, rydym yn dal i ymddiddori cymaint ag erioed yn archaeoleg a thirwedd mynyddoedd Cymru. Ym Mis Gorffennaf, i nodi Gŵyl Archaeoleg 2016, roedd Trysor wedi cynnal dau ddiwyddiad, sef Taith Gerdded i Lyn Gynon, Elenydd a Phicnig Archaeolegol ym Mhont ar Elan, Dyffryn Elan. Tra oedd y daith gerdded wedi mwynhau diwrnod hyfryd, daeth glaw diflas i sbwyllo'r picnig ac roedd rhaid gohirio'r digwyddiad.. Fel'na mae pethau'n mynd ar y bryniau. Ond fe driwn ni eto yn 2017!



**A view from the hills...**

Although the Uplands Initiative has come to an end, our interest in the archaeology and landscapes of upland Wales remains undimmed. In July, to mark the 2017 Festival of Archaeology, Trysor held two events, a guided walk to Lyn Gynon, in the Elenydd hills, and an Archaeological Picnic at Pont ar Elan, in the Elan Valley. Whilst the walkers enjoyed a fine day, the summer rains came and spoiled the picnic, which had to be cancelled. Such is life in the hills. But we will try again in 2017!

Eglwys Ysbyty Dewi Sant St.David's Hospital Church



Yn gynnar yn y flwyddyn gwelwom eglwys gofrestredig Ysbyty Dewi Sant, Caerfyrddin. Adeiladwyd yr eglwys gan gleifion tlawd yr ysbyty er mwyn talu am eu triniaeth!

Early in the year we visited the listed church at St. David's Hospital, Carmarthen. The church was built by poorer patients as a means of paying for their treatment!

Mae'r map isod yn dangos lleoliadau lle buon ni'n gweithio yn ystod 2016. Mae ambell un dros y ffin yn Lloegr, ond maent yn bennaf yn Ne a Gorllewin Cymru. Eleni, gwelwom leihad syfrdanol yn nifer y prosiectau oedd yn ymwneud ag ynni adnewyddiol, effaith y newid ym mholisi'r llywodraeth yn San Steffan, ond cynnydd yn y nifer oedd yn cynnwys elfen o gloddio. Da gweld dychweliad prosiectau cymunedol a dehongli treftadaeth eleni eto, ar ôl cyfnod tawel yn y meysydd hynny i ni.

The map below shows the location where we have undertaken work during 2016. A few were across the border in England again this year. This year saw a dramatic reduction in the number of projects associated with renewable energy, caused by the change in government policy, but a rise in the number which included some excavation work. It was good to see the return of community projects and heritage interpretation this year, after a quiet period in those fields for us.



Ym Mis Ebrill, buom ym mhentre Llanarthne, Sir Gâr yn gwerthuso safle ar bwys hen ysgol y pentre. Allan o'r ffos ddaeth cryn dipyn o ddarnau o lo mân, yn ogystal â sbwriel yr ysgol Fictorianaidd, sef llechi ysgrifennu oedd wedi torri, pin ysgrifennu a phot inc.


In April we were in Llanarthne village, Carmarthenshire evaluating a plot adjacent to the old village school. Our trench produced quite a lot of small coal, as well as rubbish from the Victorian school, such as broken writing slates, a writing stylus and an ink pot.

Castell Cydweli Kidwelly Castle



Wrth i'r gwanwyn dechrau cynhesu, treulion ni peth amser yn gweithio yn hen dref Cydweli, eto yn Sir Gâr, yn asesu effaith bont cerdded arfaethedig dros yr Afon Gwendraeth Fach ar gastell enwog y dref.

As spring warmed up, we spent some time in old Kidwelly town, also in Carmarthenshire, assessing the effect a proposed footbridge across the Gwendraeth Fach river might have on the town's famous castle.



Ym Mis Gorffennaf gawsom y pleser o ddychwelyd i bentre Alberbury, Swydd Amwythig i gloddio o fewn gardd furog plas Parc Loton, lle ganfûm olion tŷ canoloesol. Ymhlith ein darganfyddiadau oedd dwsinau o hoelion haearn, darn o ganhwylbren bres a phin clogyn syml. Dyddiad radiocarbon y safle oedd rhwng 1410 a 1445 OC.

During July we had the pleasure of returning to Alberbury in Shropshire, to excavate the remains of a medieval house in the walled garden of Loton Park mansion. Amongst our finds were dozens of iron nail, part of a copper alloy candlestick and a simple cloak pin. The radiocarbon dates dated the site to between AD1410 and 1445.




Cerdded y tir, Clawdd Coch Fieldwalking, Clawdd Coch



Ym mis Mawrth buon ni yn ardal Llanymynech, Powys, yn chwilio am olion gaer Rufeinig honedig ar fferm leol. Ar ôl astudio ffynonellau hanesyddol, gwneud arolwg geoffisegol, cerdded y tir ac agor nifer o ffosydd, daethom i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth o gwbl am Gaer Clawdd Coch. Mis yn ddiweddarach, ym Manwen, ger Castell Nedd, roeddem yn gyfrifol am gario allan briff gwylio i chwilio am yr heol Rufeinig i Aberhonddu 'chwaith. Er nad oedd sôn am yr heol Rufeinig, fe welsom fosaig hyfryd yn y pentref sy'n cofnodi'r presenoldeb gaer a'r ffordd Rufeinig yn yr ardal.

In March we were in the Llanymynech area of Powys, searching for evidence of a supposed Roman fort. After studying historical sources, a geophysical survey, fieldwalking and opening several trenches, we concluded that there is in fact no evidence at all for the existence of Clawdd Coch Fort. A month later we undertook a watching brief at Banwen, near Neath, looking for evidence of the Roman road to Brecon. There was no sign of the road, but we did see a fantastic mosaic in the village, marking Banwen's place on the map of Roman Wales.

Mosaig Banwen The Banwen Mosaic



Gwely tramffordd Fforest Brycheiniog, Cnewr, Crai The bed of the Brecon Forest Tramroad at Cnewr, Crai

Yn ystod yr haf, buom yn gwerthuso effaith dau brosiect ynni hydro yn yr hen Sir Frycheiniog, ger Crai a Llangatwg. Roedd y ddau brosiect yn cynnwys cloddio ar draws hen dramffyrdd. Ar safle Llangatwg bu'n rhaid cloddio hen wal guddiedig yn ymyl safle Fferm y Cwm, fferm sydd wedi dadfeilio ers dros 150 mlynedd., Yno, daethom ar draws crochenwaith o'r 18fed a 19eg ganrif a darnau bach o blwm oedd, o bosibl, yn gysylltiedig â gwneud peletau plwm ar gyfer gynnu saethu.

During the summer we carried out evaluation digs for two hydro-electric projects in Breconshire, near Crai and Llangatock. Both included digging across old tramway beds. The Llangatock project also included excavating an old wall next to the site of Cwm, a farm which was abandoned some 150 years ago. This produced pottery of 18th and 19th century date, as well as small flakes of lead which may have been waste from the making of shotgun pellets.



Ger Fferm y Cwm, Llangatwg Near Cwm Farm, Llangatock